**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Catherine Smith
Cadeirydd
Hybu Cig Cymru

18 Gorffennaf 2024

Annwyl Catherine,

**Diwylliant a gweithrediadau Hybu Cig Cymru**

Nodaf adroddiadau yn y cyfryngau fod Hybu Cig Cymru (HCC) wedi gorffen ei broses ddisgyblu ynghylch y cyn-Brif Weithredwr. Byddwch yn ymwybodol o bryderon a fynegwyd yn y Senedd bod y diwydiant yn colli ffydd yn HCC. O ystyried pwysigrwydd y diwydiant cig coch i'n cymunedau gwledig a'n heconomi ehangach, mae'n hollbwysig bod HCC yn cynnal hyder y diwydiant ac yn gweithio'n agos gyda chynhyrchwyr.

Nawr bod y broses ddisgyblu wedi dod i ben, a fyddech cystal â rhoi gwybod imi pa gamau y mae HCC yn eu cymryd i gefnogi diwylliant iach o fewn y sefydliad ac i sicrhau bod ganddo hyder y diwydiant wrth symud ymlaen.

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Rwyf hefyd wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS a James Evans AS oherwydd eu diddordeb yn y mater.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Llyr Gruffydd AS
James Evans AS